



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD5019C

Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol 2

**BA (Anrhydedd) Addysg Gynradd gyda Statws
Athro Cymwysedig**

Lefel 5

10 Credyd

Yr Athrofa

2025-2026

Ail-ddilyswyd Hydref 2023 i dderbyn myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2024

1. Manylion Cyswilt

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

Hedydd Jones (**Arweinydd Modwl**)

h.jones@uwtsd.ac.uk

Tîm Addysgu'r Modwl

Hedydd Jones
Bethan Griffiths
Aneirin Karadog

2. Ein Disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu.

Dylech wneud y canlynol:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Sicrhau eich bod yn ymarfer eich sgiliau Cymraeg yn gyson – yn y Brifysgol, ar Brofiad Addysgu Proffesiynol ac yn allgyrsiol.

Darllenwch [Reoliadau Myfyrwyr](#) y Brifysgol a Pholisi Ymgysylltu'r Athrofa.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN(ION)

Amcan y modwl, yn unol ag amcanion gweledigaeth Llywodraeth Cymru: 'Cymraeg 2050', gofynion meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, ac ymrwymïadau [‘Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg’](#), yw:

- Datblygu gallu darpar athrawon i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn effeithiol, yn unol â'u lefel hyfedredd, ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn sefyllfaoedd amrywiol o fewn y sector cynradd ac uwchradd ar draws ysgolion Partner yn rhan o Gwricwlwm Cymru.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu

- dangos hyder wrth fynegi eu hunain ar lafar ac yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ystod o batrymau priodol a chywir, yn unol â'u lefel hyfedredd, wrth gyflwyno gwersi trawsgwricwlaidd ar gyfer y sector cynradd cyfrwng Saesneg a/neu'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg;
- datblygu, addasu a mireinio deunyddiau ac adnoddau addysgu gan ddefnyddio ystod ehangach o batrymau priodol a geirfa berthnasol;
- cymhwyso gwybodaeth a dangos dealltwriaeth fanwl o fethodolegau addysgu Cymraeg gwahanol yn eu gwersi i ddatblygu iaith ac ennyn datblygiad ieithyddol dysgwyr yn y dosbarth;
- gwerthuso'n feirniadol eu sesiynau addysgu a'u hadnoddau addysgu.

CYNNWYS DANGOSOL

- Bydd y modwl hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio iaith o safon dderbyniol mewn ystod o gyd-destunau proffesiynol perthnasol er mwyn i ddarpar athrawon ddangos hyder cynyddol yn eu meistrolaeth o Gymraeg llafar a chodi safonau wrth gyflwyno'r Gymraeg yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg a/neu'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Cyflwynir darpar athrawon i ddulliau gwrandio, trafod, ymateb i gwestiynau a chyflwyno gwybodaeth wrth addysgu'r Gymraeg yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg a/neu'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Trafodir dulliau addysgegol gwahanol o feithrin dealltwriaeth lawn o sut i gyflwyno iaith yn y cyd-destun addysgol presennol, gyda ffocws arbennig ar arbenigwyr addysgeg iaith fel Gianfranco Conti a Steve Smith.
- Yn unol â'u lefel hyfedredd, cesglir casgliad o dermau priodol yn y Gymraeg i alluogi darpar athrawon i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu meysydd arbenigol, gan addysgu nodweddion y Gymraeg drwy gyfrwng gwersi thematig a thrawsgwricwlaidd.

- Rhoddir cyfle i ddarpar athrawon ymchwilio, datblygu a mireinio cynllun gwaith ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn eu gwersi a'u maes arbenigol.
- Bydd y tiwtor yn cynorthwyo darpar athrawon i gydnabod yn annibynnol sut y maen nhw'n defnyddio sgiliau a phatrymau iaith yn addysgegol ar hyn o bryd, ynghyd â ffyrdd o'u gwella.
- Anogir darpar athrawon i ddefnyddio llyfrau cyfeirio a phecynnau meddalwedd electronig ieithyddol i'w cefnogi i loywi eu hiaith.

4. Gwybodaeth Asesu

DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae 35 o oriau addysgu wedi'u hamserlennu ar gyfer y modwl hwn.

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu fel a ganlyn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	35	35%
Dysgu'n annibynnol	15	15%
Dysgu drwy leoliadau	50	50%
CYFANSWM	100	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Cyflwyniad Llafar – Micro-wers	7.5 munud	50%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Portffolio o adnoddau addysgu perthnasol gan gynnwys cynllun gwers ac adnoddau ar gyfer y micro-wers, ynghyd â gwerthusiad byr o'r wers	Cyfwerth â 1000 o eiriau	50%

Dyddiad Cyflwyno : 4 Mawrth 2026

CRYNODEB O'R ASESIAD

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	50%
Ymarferol	50%
CYFANSWM	100%

Cynnwys y Modwl

Ceir manylion llawn am gynnwys y modwl ar Moodle.

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn a'r dull cyflwyno newid yn ôl yr amgylchiadau

Darlith	Diwrnod	Dyddiad	Cyfnod	Dysgu wedi'i amserlennu
1	Dydd Iau	2.10.2025	3	wyneb i wyneb
2	Dydd Iau	9.10.2025	2 a 3	wyneb i wyneb
3	Dydd Mawrth	14.10.2025	2 a 3	wyneb i wyneb
4	Dydd Iau	16.10.2025	2	wyneb i wyneb
5	Dydd Iau	23.10.2025	2 a 3	wyneb i wyneb
6	Dydd Iau	6.11.2025	2 a 3	wyneb i wyneb
7	Dydd Iau	13.11.2025	3	wyneb i wyneb
8	Dydd Iau	20.11.2025	1 a 2	wyneb i wyneb
9	Dydd Iau	27.11.2025	1 a 2	wyneb i wyneb
10	Dydd Iau	4.12.2025	1 a 2	wyneb i wyneb
11	Dydd Iau	26.2.2026	1	wyneb i wyneb

6. Tasgau ac Arweiniad Asesu

Cofiwch fod yna ddwy ran i'r asesu.

RHAN 1: Modwl 10 credyd
(Dull cyflwyno: Moodle / Turnitin)

Elfen asesu 1: 7.5 munud
Recordiad ffilm o wers feicro

Elfen asesu 2: 1000 gair

- cynllun gwers
- adnoddau'r wers
- gwerthusiad byr o'r wers

Cofiwch fod ffocws ar addysgeg caffael a datblygiad iaith (pedagogeg) a strategaethau dysgu ac addysgu, nid eich cywirdeb ieithyddol. Gellir dod o hyd i'r taflenni asesu ar Moodle.

RHAN 2: Portffolio Fframwaith Cymwyseddau iaith i Ymarferwyr Addysg
(gofyniad Llywodraeth Cymru)
(Dull cyflwyno: Pebblepad)

Portffolio yn cynnwys tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer:

- Gwranddo
- Llafar
- Darllen
- Ysgrifennu

Bydd y ffocws ar eich sgiliau iaith bersonol.

Yn ogystal bydd angen tystiolaeth o:

- strategaethau Addysgu a Dysgu (Gellir cyflwyno gwaith y modwl 10 credyd).

7. RHESTR DDARLLEN DDANGOSOL

Cod Modwl	y	ECAD5019C
Teitl Modwl	y	Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol 2
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	<i>Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr</i> , https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf	☒
Hanfodol	<i>Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg</i> : https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf	☒
Pellach	ap Emlyn, Non. (2003) <i>Y Chwiliadur iaith</i> . Aberystwyth: CAA	☐
Pellach	Brake, J. a Jones, C. (2010) <i>Complete Welsh</i> . Llundain: Hodder & Stoughton	☒
Pellach	Brake, P. (1998) <i>Cymraeg Graenus</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Breese, N. a Clement, B. (2012) <i>Seren iaith! Llawlyfr adolygu cywiro iaith</i> . Aberystwyth: Atebol Cyfyngedig	☐
Pellach	Breese, N. a Clement, B. (2014) <i>Seren iaith 2! Llawlyfr adolygu cywiro iaith</i> . Aberystwyth: Atebol Cyfyngedig	☐
Pellach	Clement, B. a Lloyd, L. (2011) <i>Bachu iaith</i> . Caerfyrddin: Canolfan Peniarth	☐
Pellach	Conti a Smith. (2019) <i>Breaking the Sound Barrier : teaching language learners how to listen</i> . Cyhoeddwyd yn Annibynnol	☒
Pellach	Conti, G. a Maurer, M et al. (2021) <i>Welsh Sentence Builders- A Lexicogrammar approach: Welsh Sentence Builders - Beginner to Pre-Intermediate (The Language Gym- Sentence Builder Books)</i> . Singapore: Piefke Trading	☐
Pellach	Uned iaith Genedlaethol Cymru (2012) <i>Contemporary Welsh Grammar</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	<i>Cymarfer Colegau – Pecyn Craidd</i> . (1999) Bangor: Canolfan Bedwyr	☐
Pellach	Hughes, J.E. (1998) <i>Canllawiau iaith a Chymorth Sillafu</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Hughes, J. E. (1998) <i>Canllawiau Ysgrifennu Cymraeg</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Gruffudd, H. (2000) <i>Cymraeg Da</i> . Talybont: Y Lolfa, 2000.	☐
Pellach	Gruffudd, H. (2000) <i>Ymarferion Cymraeg Da</i> . Talybont: Y Lolfa	☒
Pellach	Gruffudd, H. (2003) <i>Welsh Rules</i> . Talybont: Y Lolfa	☐
Pellach	Jones, C. (2013) <i>Welsh Grammar you really need to know</i> . Llundain: Hodder & Stoughton	☒

Pellach	Jones, B. M. (1993) <i>Ar Lafar ac ar Bapur</i> . Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg	☐
Pellach	Jones, M. D. (1965) <i>Cywiriadur Cymraeg</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Lewis, D. G. (1993) <i>Y Treigludur</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Lewis, D. G. (1995) <i>Y Llyfr Berfau</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Lewis, D. G. (2014) <i>Geiriadur Pinc a Glas Gomer</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Lewis, D. G. (1997) <i>Y Geiriau Lletchwith</i> . Llandysul: Gomer	☐
Pellach	Smith, S. (2022) <i>Becoming an Outstanding Languages Teacher</i> . Llundain: Routledge	☐
Pellach	Smith, S. a Conti, G. (2016) <i>The Language Teacher Toolkit</i> . Llwyfan Cyhoeddi Annibynnol CreateSpace	☐
Pellach	Smith, S a Conti, G. (2021) <i>Memory: What Every Languages Teacher Should Know</i> . Cyhoeddwyd yn Annibynnol	☐
Pellach	Thomas, G. (2012) <i>Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg</i> . Talybont: Y Lolfa	☐
Pellach	Williams, C. (1999) <i>Cymraeg Clir</i> . Bangor: Canolfan Bedwyr	☐